Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Sun Lounge, Abertawe

16 Tachwedd 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-5996-0
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 3

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Ansawdd Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

6. Y Camau Nesaf .......... 13

Atodiad A .......... 14

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau’n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau’n bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

[1] Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC wedi'u llenwi cyn yr arolwg

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Inspections capture a snapshot on the day of the inspection of the extent to which services are meeting essential safety and quality standards and regulations.

[2] Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Dyma'r achos lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copïau o broses cydymffurfedd AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae Sun Lounge wedi'i gofrestru gydag AGIC fel ysbyty annibynnol, oherwydd ei fod yn darparu triniaethau yn defnyddio laser dosbarth 3B/4 a thechnoleg golau pwls dwys[3] yn 52 Stryd Woodfield, Treforys, Abertawe. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ym mis Mai 2011.

Mae gan y gwasanaeth dîm staff sy'n cynnwys rheolwr cofrestredig, rheolwr y clinig, a phum gweithredwr laser. Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System Golau Pwls Dwys Chromogenex Phaser ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Ieuangu'r croen
- Gwaredu ar wallt
- Triniaethau acne

[3] Mae technoleg golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell golau sbectrwm eang, sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetaidd a therapiwtig.

## 4. Crynodeb

Roedd adborth cleifion o’r holiaduron AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad yn nodi bod mwyafrif y cleifion yn fodlon gyda’r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell bod y clinig yn datblygu system i gael barn y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom hefyd argymell y dylid gwneud gwelliannau i'r cofrestrau o driniaethau a gedwir yn y clinig. Roedd canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar gael, ond gwnaethom nodi bod angen diweddariadau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd contract cyfredol gyda chynghorydd diogelu rhag laserau ar waith, ac roedd y ddau beiriant laser wedi'u gwasanaethu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Er bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddefnyddio peiriannau laser/golau pwls dwys, nid oedd hyfforddiant Craidd Gwybodaeth [4] wedi'i gwblhau. Gwnaethom ganfod bod y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus, ond gwnaethom ganfod bod angen creu polisi rheoli heintiau.

Dangosodd trafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau ynghylch darparu gwasanaethau laser dosbarth 3/4 a golau pwls dwys. Fodd bynnag, o achos y meysydd sydd angen eu gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, roedd angen trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol er mwyn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda'r rheoliadau a'r safonau.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.  Mae manylion pellach am welliannau angenrheidiol wedi’u darparu yn Atodiad A. Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i’r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i’r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny’n arwain o bosibl at ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau.

Mae gan wasanaethau sydd wedi cofrestru gydag AGIC yr hawl i ddarparu triniaethau yn unol â'u hamodau cofrestru yn unig. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ganfod nad oedd y triniaethau/cyfarpar yn gyson gydag amodau'r cofrestriad. Gwnaethpwyd trefniadau er mwyn i'r clinig amrywio eu hamodau ar ôl yr arolygiad.

---

[4] Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy’n defnyddio systemau golau pwls dwys a laserau ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae’r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau yn ddiogel.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**<u>Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)</u>**

Edrychwyd ar y cofnodion oedd yn cynnwys gwybodaeth cleifion. Gwelsom dystiolaeth a ddangosai y gofynnir i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol; fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y clinig hefyd yn cynnwys datguddiad diweddar i'r haul. Cadwyd cofrestr o driniaethau ar gyfer y golau pwls dwys a'r peiriant laser. Fodd bynnag, roedd manylion am nifer y saethiadau (paramedr laser/golau pwls dwys) ar goll o gofrestr y peiriant golau pwls dwys, ac roedd manylion ynglŷn â'r ardal a gafodd ei thrin ar goll o gofrestr y peiriant laser, ac nid oedd lle i gynnwys manylion o unrhyw effeithiau niweidiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddaru'r cofrestrau triniaeth er mwyn cynnwys nifer y saethiadau, yr ardal a gafodd ei thrin, a lle i gynnwys manylion am unrhyw effeithiau niweidiol.***

Gwelsom dystiolaeth i awgrymu bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym y darperir cleifion ag ymgynghoriad cyn y driniaeth, sy'n cynnwys trafodaeth am risgiau a buddiannau'r driniaeth. Darparwyd y cleifion hefyd â phrawf clwt, a gofynnir iddynt ddarparu cydsyniad ysgrifenedig i'r driniaeth. Dywedwyd wrthym y rhoddir gwybodaeth i gleifion fynd adref gyda nhw er mwyn ystyried y driniaeth.

**<u>Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)</u>**

Nid oedd canllaw i gleifion ar gael ar y diwrnod, ond cafodd ei anfon i AGIC yn dilyn yr arolygiad. Gwnaethom ganfod bod angen y gwelliannau canlynol:

- Manylion y peiriannau laser/golau pwls dwys a ddefnyddir
- Crynodeb o safbwyntiau ac adborth gan gleifion
- Dylid cywiro'r manylion am sut gall cleifion gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf. Nid oes angen i gleifion ofyn am hwn o'r clinig, am ei fod ar gael ar wefan AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau, a'i fod ar gael i gleifion ei weld.***

Roedd datganiad o ddiben ar gael, ac roedd yn darparu'r wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen y diweddariadau canlynol er mwyn cydymffurfio â’r rheoliadau:

- Dylid dangos yr holl hyfforddiant perthnasol yn adrannau 4 a 5 y datganiad o ddiben, yn benodol hyfforddiant Craidd Gwybodaeth
- O ran y trefniadau ar gyfer cwynion, mae'n rhaid cynnwys manylion cyswllt AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid diweddaru’r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.***

**<u>Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)</u>**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i’r clinig ddyrannu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 11 holiadur cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Dangosodd yr holiaduron fod gan y cleifion lefel uchel o foddhad gyda’r gwasanaeth, a’u bod naill ai’n cytuno’n gryf neu’n cytuno gyda’r datganiadau bod y clinig yn lân a thaclus, a bod staff yn foesgar, yn ofalus, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r salon yn lân iawn bob tro.Mae'r staff yn gwrtais iawn ac yn barod eu cymwynas bob tro.Byswn yn eu hargymell yn fawr i unrhyw un."*
>
> *"Pan ddechreuais fy nhriniaeth, esboniwyd yr ymgynghoriad yn llawn.Buaswn i'n argymell y driniaeth a'r salon hwn yn fawr."*

Dywedwyd wrthym yr anogir cleifion i gwblhau adborth ar-lein, ond ni chynhaliwyd holiaduron cleifion arferol yn unol â'r trefniadau a fanylwyd arnynt yn natganiad o ddiben y clinig.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud trefniadau i gael barn y cleifion yn rheolaidd, yn unol â'r datganiad o ddiben.***

***Dylid cynnwys crynodeb o farn cleifion yn y canllaw i gleifion.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a  dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)**

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Er bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, gwnaethpwyd hyn dros dair blynedd yn ôl ac roedd angen hyfforddiant mwy diweddar. Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i gwblhau gan y gweithredwyr laser. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn cwblhau’r hyfforddiant hwn yn gynnar yn 2016. Mae hyfforddiant rheolaidd Craidd Gwybodaeth ac mewn defnyddio'r peiriannau golau pwls dwys/laser yn bwysig i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r risgiau a’r gofynion diogelwch sy'n ymwneud â thriniaethau golau pwls dwys/laser.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser gwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.***

Gwnaethom edrych ar y rheolau lleol, sy'n rhoi manylion am sut i weithredu'r offer yn ddiogel. Gwelsom fod y rhain wedi'u harwyddo gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser, i ddangos eu hymwybyddiaeth a'u cytundeb i ddilyn y rheolau hyn. Sylwom fod gwall yn y rheolau lleol, ynglŷn â dosbarth y peiriant laser, a gwnaethom argymell bod y clinig yn cysylltu gyda'u cynghorydd diogelu rhag laserau ynglŷn â hyn.

Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol gyda chynghorydd diogelu rhag laserau ar waith, a gwelsom adroddiad o'i ymweliad diwethaf yn y clinig ym mis Mehefin 2015. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau eu bod wedi mynd i'r afael â'r camau a argymhellwyd gan y cynghorydd diogelu rhag laserau.

Gwelsom arwydd tu allan i'r ystafell driniaeth i nodi pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cawsom hyd i offer diogelu llygaid a oedd ar gael ar gyfer y peiriant, ond gwnaethom sylwi bod y sbectol yn ymddangos ychydig yn frwnt, a gwnaethom argymell wrth y clinig i sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n effeithiol ar ôl eu defnyddio bob tro.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr allweddi cychwyn dynodedig ar gyfer y peiriannau golau pwls dwys a'r laser yn cael eu symud oddi yno pan na chânt eu defnyddio, a'u storio'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod y peiriannau golau pwls dwys a laser yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd gan y clinig becyn cymorth cyntaf ar gael, ac roedd y rheolwr cofrestredig a dau weithredwr laser wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd polisi dadebru ar gael.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid bod polisi dadebru mewn lle.***

**Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)**

Edrychwyd ar y trefniadau ar gyfer diogelu cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd cleifion o dan 18 mlwydd oed yn cael eu trin yn y clinig, ac anogwyd cleifion i beidio dod â phlant.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod wedi mynychu hyfforddiant diogelu oedolion, ond am fod yr hyfforddiant hwn wedi'i gynnal bum mlynedd yn ôl, argymhellwyd eu bod yn mynychu hyfforddiant wedi'i ddiweddaru. Dylai'r gweithredwyr laser gwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion hefyd. Nid oedd polisi diogelu ar gael ar y diwrnod, ond cafodd ei anfon i AGIC yn dilyn yr arolygiad. Roedd y polisi diogelu yn aneglur, ac nid oedd y manylion ynglŷn â swyddogaethau'r staff yn y clinig yn dilyn pryder diogelu yn briodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser fynychu hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.***

***Dylid diweddaru'r polisi diogelu i gynnwys gweithdrefn eglur a phriodol i'w dilyn mewn achos o bryder diogelu, a chynnwys manylion cyswllt yr awdurdodau lleol priodol.***

**Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)**

Gwelwyd bod y clinig yn amlwg yn lân ac yn daclus. Roedd trefniadau addas er mwyn gwaredu â gwastraff miniog yn y clinig. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd polisi'n cynnwys trefniadau rheoli heintiau ar waith, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen rhoi polisi rheoli heintiau ar waith, a manylu ar holl drefniadau glanhau'r clinig, gan gynnwys cyn ac ar ôl pob triniaeth.***

**Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)**

Edrychwyd gennym ar y trefniadau cynnal a chadw yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal yn 2015. Nid oedd tystysgrif gwirio gwifrau'r adeilad ar gael ar y diwrnod, ond cafodd ei hanfon i AGIC yn dilyn yr arolygiad. Nid oes nwy na lifftiau yn y clinig.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau diogelwch tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r staff dderbyn hyfforddiant tân. Gwasanaethir diffoddwyr tân yn flynyddol, ac mae arwyddion i ddynodi'r allanfeydd tân. Gwelsom asesiad risg tân a oedd wedi'i gwblhau, ond dangosodd dystiolaeth nad oedd wedi'i adolygu yn y flwyddyn ddiwethaf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cynnal hyfforddiant tân i staff.***

***Mae'n rhaid adolygu'r asesiad risg tân yn rheolaidd, a'i ddiweddaru fel sy'n briodol.***

Gwnaethom sylwi bod gan lawr isaf y clinig allanfa dân sy'n arwain at iard gymunedol, gydag ail allanfa yn y pen pellaf. Gwelsom fod llwybr yr allanfa dân drwy'r iard wedi'i rwystro'n rhannol, gan ddeunyddiau adeiladu o gwmni arall fyny'r grisiau. Gwnaethom argymell bod y clinig gysylltu â'r awdurdod tân lleol ynglŷn â hyn, os nad ymdrinnir â'r mater yn fuan.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)**

Rheolir Sun Lounge gan y rheolwr cofrestredig, a darperir rheolaeth o ddydd i ddydd gan reolwr y clinig hefyd. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn cyflogi cwmni i gynorthwyo gyda pholisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol nad oedd rhai polisïau gofynnol, megis polisi rheoli heintiau, yn cael eu cynnig gan y cwmni hwn, ac y byddai'n rhaid eu creu'n lleol. Er bod trefniadau ar gyfer cymorth, y rheolwr cofrestredig sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rheoliad 9 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol, gan gynnwys eu creu a'u hadolygu'n rheolaidd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith, eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u bod yn cydymffurfio â Rheoliad 9.***

Dangosodd drafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gydymffurfio â'r rheoliadau a safonau o ran darparu gwasanaethau laser dosbarth 3/4 a golau pwls dwys. Fodd bynnag, o ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, roedd angen trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol er mwyn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod cydymffurfiaeth barhaus gyda'r rheoliadau a'r safonau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud gwelliannau i'r systemau ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, a sicrhau bod cydymffurfiaeth barhaus gyda'r rheoliadau a'r safonau.***

**Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)**

Nid oedd polisi cwyno ar gael ar y diwrnod, ond cafodd ei anfon i AGIC yn dilyn yr arolygiad. Gwnaethom ganfod nad oedd y polisi hwn yn gyson gyda'r trefniadau cwyno a fynegwyd yn y canllaw i gleifion, ynglŷn ag at bwy y dylid cyfeirio cwynion, a'r amserlenni ynghylch cydnabod ac ymchwilio i gwynion. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd yn eisiau yn y polisi cwyno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi cwyno yn gyson gyda'r wybodaeth am gwynion a ddarperir yn y canllaw i gleifion.***

***Rhaid diweddaru'r polisi cwyno i gynnwys manylion cyswllt AGIC.***

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi mewn llyfr ac mewn dyddiadur. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid cofnodi'r holl gwynion mewn un man canolog, fel bod modd eu hadolygu am themâu cyffredin, fel modd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

**Rheoli cofnodion (Safon 20)**

Gwelsom y cadwyd cofnodion cleifion a gwybodaeth sy'n ymwneud â thriniaethau laser a golau pwls dwys yn ddiogel, er mwyn cadw cyfrinachedd cleifion.

**Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)**

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y rheolwr cofrestredig na'r gweithredwyr laser dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Sun Lounge yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth: Sun Lounge

## Dyddiad yr arolygiad: 16 Tachwedd 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylid diweddaru cofrestrau'r triniaethau i gynnwys nifer y saethiadau, yr ardal a gafodd ei thrin, a lle i gynnwys manylion am unrhyw effeithiau niweidiol. | Rheoliad 23 (1) a 45 (2) | | | |
| 8 | Mae'n rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau, a'i wneud ar gael i gleifion ei weld. | Rheoliad 7 | | | |
| 7 | Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. | Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1 | | | |
| 7 | Dylid gwneud trefniadau i gael barn cleifion yn rheolaidd, yn unol â'r datganiad o ddiben. | Rheoliad 19 (2) (e) | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dylid cynnwys crynodeb o farn cleifion yn y canllaw i gleifion. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser gwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth. | Rheoliad 45 (3) | | | |
| 9 | Rhaid bod polisi dadebru mewn lle. | Rheoliad 15 (1) (a) (b) | | | |
| 9 | Dylai'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser fynychu hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.<br>Mae'n rhaid diweddaru'r polisi diogelu i gynnwys gweithdrefn eglur a phriodol i'w dilyn mewn achos o bryder diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt yr awdurdodau lleol priodol. | Rheoliad 16 (1) a (3) (a); Safon 11 y Safonau Gofynnol Cenedlaeth ol | | | |
| 9 | Mae'n rhaid bod y polisi rheoli heintiau ar waith, ac yn manylu ar holl drefniadau glanhau'r clinig, gan gynnwys cyn ac ar ôl pob triniaeth. | Rheoliad 9 (1) (n) | | | |
| 10 | Dylid cynnal hyfforddiant tân i staff. | Rheoliad 26 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'n rhaid adolygu a diweddaru'r asesiad risg tân yn rheolaidd fel sy'n briodol. | (5) (b) | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u bod yn cydymffurfio gyda Rheoliad 9. | Rheoliad 9 | | | |
| 11 | Dylid gwneud gwelliannau i'r systemau ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, a sicrhau bod cydymffurfiaeth barhaus gyda'r rheoliadau a'r safonau. | Rheoliad 19 (1) (a) | | | |
| 12 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi cwyno yn gyson gyda'r wybodaeth am gwynion a ddarperir yn y canllaw i gleifion.<br>Mae'n rhaid diweddaru'r polisi cwyno i gynnwys manylion AGIC. | Rheoliad 24 (4) | | | |
| 12 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a | Rheoliad 12 (2) (c) ac Atodlen 2 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf. | | | | |

## Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** ........................................................................................

**Teitl:** ........................................................................................

**Dyddiad:** ........................................................................................